Cymru
National Day Nurseries Association

Factsheet



# Cymhwysedd Digidol yn y Blynyddoedd Cynnar

## Cwricwlwm i Gymru

# Cymhwysedd Digidol yn y Blynyddoedd Cynnar

**Mae cymhwysedd digidol, ynghyd â rhifedd a llythrennedd, yn sgiliau gorfodol traws-gwricwlaidd sy'n ymestyn ar draws y cwricwlwm cyfan, a'n cyfrifoldeb ni i yw sicrhau bod plant yn datblygu a dangos cynnydd yn y sgiliau yma. Wrth gynllunio profiadau dysgu, dylem sicrhau bod plant yn cael cyfle i ddefnyddio, datblygu ac ehangu'r sgiliau yma mewn modd ystyrlon, gan ddefnyddio'r pum llwybr datblygu.**

## Beth yw cymhwysedd digidol?

Cymhwysedd digidol yw datblygiad sgiliau a gwybodaeth wrth ddefnyddio systemau a thechnoleg fodern. Mae'n hanfodol bod dysgwyr ifanc heddiw yn hyderus ac yn ymwybodol o'r byd digidol. Ni ddylid drysu rhwng cymhwysedd digidol a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) neu Wyddoniaeth Gyfrifiadurol, fodd bynnag, maent yn perthyn yn agos, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar.

## Cymhwysedd digidol a'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r angen am Fframwaith Cymhwysedd Digidol cynhwysfawr yn un o argymhellion allweddol adroddiad yr Athro Graham Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru' (2015). Nododd adroddiad y panel i Lywodraeth Cymru fod cymhwysedd digidol yr un mor bwysig yn yr unfed ganrif ar hugain â llythrennedd a rhifedd.

Mae cymhwysedd digidol yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae cymhwysedd digidol yn un o dri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd gorfodol, ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd. Nod y Fframwaith yw cefnogi addysgu'r wybodaeth, yr agwedd a'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i allu defnyddio technoleg a systemau yn hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol.

Mae'n ofynnol i leoliadau ac ysgolion gynnig cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol ar draws eu hymarfer a'u darpariaeth. Bydd y sgiliau datblygedig hyn yn hanfodol ac yn drosglwyddadwy i ddyfodol y plant yn ogystal â'u bywyd gwaith.

## Ymgorffori cymhwysedd digidol ar draws y Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn tynnu at ei gilydd y sgiliau a fydd yn helpu plant i ffynnu mewn byd cynyddol ddigidol, er enghraifft sut i gadw'n ddiogel ar-lein a hefyd deall pwysigrwydd cydbwyso amser gêm ac amser sgrin â rhannau eraill o'u bywydau. Mae'r Fframwaith wedi'i ddatblygu i ategu'r cwricwlwm, gan sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sylfaenol y bydd yn adeiladu arnynt wrth iddynt symud ymlaen drwy eu haddysg.

Yn ystod y gwaith o gyd-greu'r cwricwlwm nas cynhelir, cwblhawyd gwaith ar ymgorffori'r sgiliau yn y Fframwaith ar draws y pum llwybr datblygu. Mae hyn yn golygu, os byddwch yn canolbwyntio ar ddatblygu eich dysgwyr drwy'r ffyrdd a ddisgrifir yn y llwybrau mewn modd cyfannol, yna byddwch yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen yn y Fframwaith ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed ac na fydd angen iddynt gael mynediad at y Fframwaith fel dogfen unigol.


**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

## Adnoddau cymhwysedd digidol

Yn y byd sy'n gynyddol ddigidol, mae'n hanfodol bod plant yn cael cyfle i archwilio a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ddigidol. Gall dyfeisiadau a chyfryngau digidol eu defnyddio i gyfoethogi chwarae plant a dylai fod yn rhan o'r ddarpariaeth sydd ar gael. Nid ychwanegiad symbolaidd i'r amgylchedd a phrofiadau dysgu dylai'r cyfryngau digidol fod.  Mae angen i gynllunio ar gyfer dysgu gynnwys trochi plant mewn profiadau go iawn a phwrpasol gan ymgorffori sgiliau a chymwyseddau digidol yn eu bywydau bob dydd.

Mae'n hynod bwysig i nodi bod cyfryngau digidol yn fwy na thabledi a gliniaduron, ac yn cynnwys pethau fel; Canfodydd metel, tiliau, clorian electronig, teganau rheoli o bell, teganau wedi eu rhaglennu, fflachlampau, dyfeisiau recordio, adnoddau tŷ bach twt,  microdon, sugnydd llwch, ffonau ac ati, camerâu, taflunyddion, byrddau gwneud marciau wedi'u goleuo a llawer mwy!

## Cymhwysedd digidol wrth ymarfer

Mae plant yn aml yn hyderus wrth ddefnyddio rhai mathau o gyfryngau digidol, yn enwedig yn y gornel tŷ bach twt, ac yn gallu cymryd rhan mewn chwarae rôl gan gynnwys cyfryngau wrth chwarae gydag eraill. Gall gyfryngau ysbrydoli cyfathrebu ac iaith, rhannu, datblygu sgiliau echddygol manwl, chwarae dychmygol ac ail-fyw neu ail-greu profiadau o'r gorffennol.

Bydd rhai adnoddau cyfryngau angen presenoldeb oedolyn i fodelu e.e. er mwyn gallu defnyddio sgrîn rhyngweithiol, efallai bydd plant yn edrych ar yr oedolyn er mwyn hwyluso cymryd rhan a dysgu. Rôl yr oedolyn fydd i fodelu'r defnydd, gan alluogi plant i gymryd rheolaeth ac archwilio'r cyfryngau drwy ddefnyddio sgiliau darganfod.

Mae oedolion yn chwarae rôl hanfodol wrth gyflwyno plant i gyfryngau digidol, gan alluogi cyfleoedd drwy gynllunio, modelu ac ymateb i'w diddordebau.  Dylai hyn gael ei sefydlu yn addysgeg a diwylliant y lleoliad. Bydd cefnogi ymarferwyr i weithio yn y modd yma gyda phlant, yn galluogi plant i ddod yn ddysgwyr hyderus mewn byd digidol. Byddant yn gallu addasu a ffynnu yn y byd modern, gyda'r gallu i ddysgu ac addasu i sgiliau newydd drwy gydol eu bywydau.

## Datblygiad proffesiynol

Mae'n bwysig ystyried gwybodaeth yr oedolion yn y lleoliad. Os mai rôl yr oedolyn yw i  hwyluso, galluogi a darganfod gyda'r plant – ydyn nhw yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg eu hunain ? Wrth ddisgwyl i ymarferwyr ymgysylltu'n hyderus â datblygu gallu plant i ddefnyddio technoleg plant, mae'n bwysig ystyried dysgu a phrofiad er mwyn cynnig cymorth a hyfforddiant os oes angen. Nid oes rhaid i hyn fod yn gostus, weithiau gellir ei gyflawni trwy oruchwylio a gwylio cyd-weithwyr wrth eu gwaith. Yr hyn sy'n bwysig yw bod pob ymarferwr yn derbyn a chofleidio pŵer technoleg a'i rôl ym mywydau plant.



**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070   fax: 01484 407060   info@ndna.org.uk   www.ndna.org.uk

Cwestiynau myfyriol:

- Sut ydych chi'n caniatáu amser a lle i blant chwarae, archwilio a datblygu eu sgiliau digidol?
- Sut ydych chi'n hwyluso profiadau trwy gynllunio ac ymateb i ddiddordebau plant?
- Sut ydych chi'n darparu ystod o brofiadau digidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau?
- A ydych yn ymdrechu i alluogi dealltwriaeth o dechnolegau a'r cyd-destun y cânt eu defnyddio ynddo? Gan gynnwys y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliad? E.e. tiliau archfarchnadoedd, goleuadau traffig, teledu cylch cyfyng, drysau awtomatig, sgriniau digidol ac ati
- Sut ydych chi'n sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio cyfryngau digidol a chwarae? Sicrhau bod cyfryngau yn cael eu defnyddio fel offeryn ar gyfer dysgu ac nid fel rhywbeth i dynnu sylw oddi wrtho.

## Cefnogaeth bellach ac adnoddau NDNA:

- Cwricwlwm i Gymru – NDNA Cymru https://ndna.org.uk/CFWAdditionalElements
- Cwricwlwm i Gymru – Hwb https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru


**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

National Day Nurseries Association

*Meddwl mwy disglair ar gyfer y blynyddoedd cynnar

# Taflen ffeithiau

Caiff ein tafleni ffeithiau eu hysgrifennu gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar. Mae'r rhan fwyaf o'n tafleni ffeithiau am ddim ar gyfer ein haelodau.

NDNA yw'r elusen genedlaethol a'r gymdeithas aelodaeth sy'n cynrychioli meithrinfeydd plant ar draws y DU. Rydym yn elusen sy'n credu mewn safon a chynhaliadwyedd felly rydym yn gosod busnesau ein haelodau wrth galon ein un ni.

Ni yw llais y sector meithrinfeydd a'i 21,000 o aelodau, ac yn ran o fywydau dros filiwn o blant ifanc a'u teuluoedd. Rydym yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i gefnogi meithrinfeydd a'r 250,000 o bobl sy'n gweithio ynddynt i ddarparu dysgu cynnar a gofal plant o safon rhyngwladol.

Gwelwch yr ystod lawn o dafleni ffeithiau NDNA ar www.ndna.org.uk/factsheets

*Mae'r wybodaeth ddarparwyd yn y daflen ffeithiau yma at ddefnydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn unig. Ysgrifenwyd y daflen gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar ond ni ddylai gael ei ddefnyddio fel allddodyn i gyngor proffesiynol. Mae NDNA wedi ymdrechu i sicrhau cywirdeb y wybodaeth gyflwynwyd yn y daflen ffeithiau. Nid yw NDNA yn atebol yn gyfreithiol nac yn gyfrifol am eich dehongliad nac eich defnydd o'r wybodaeth a ddarperir*

NDNA Cymru
3 Ty Connaught, Parc Busnes Glan Yr Afon, Ffordd Benarth, Conwy, LL32 8UB
ffôn: 01824 70 78 23   e.bost: wales@ndna.org.uk